# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Hydref 2020

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru

# (EITEM 3) FIN(5)-18-20 P1 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22 / Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22: Sesiwn dystiolaeth

(14.30-15.30) (Tudalennau 1 - 51)

Suzy Davies AS, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid

**Papurau atodol:**

FIN(5)-18-20 P1 - Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee FIN(5)-18-20 P1

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

Eitem 3

# Cyllideb Ddrafft 2021-22

Medi 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@seneddcymru**
Twitter: **@SeneddCymru**

---

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyllideb Ddrafft 2021-22

Medi 2020


Senedd Cymru
Welsh Parliament
Tŷ Hywel

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 7**

**2. Y Gyllideb ..... 8**

Cynllunio'r gweithlu ..... 9

Cyllideb yr etholiad ..... 10

Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau ..... 10

Yr UE – y cyfnod pontio ..... 12

Gwaith ymgysylltu ..... 12

Meddalwedd ar gyfer deddfwriaeth ..... 13

Gwariant ar brosiectau a gynlluniwyd ..... 13

Diwygio'r Senedd ..... 14

Y Comisiynydd Safonau ..... 14

**3. Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol ..... 17**

**4. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ..... 19**

**5. Cwmpas y Gyllideb ..... 21**

Atodiad 1 Trosolwg o'r Gyllideb ..... 23

Atodiad 2: Manylion y Gyllideb ..... 25



# 1. Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Senedd i dalu costau rhedeg y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Bellach mae gennym enw sy'n adlewyrchu'n llawn ein rôl a'n statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol.

Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysiol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gryn gyfrifoldeb a braint yn eu rôl o gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Rôl Comisiwn y Cynulliad yw darparu staff a gwasanaethau cymorth arbenigol o safon uchel i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli, ac i fodloni disgwyliadau pobl Cymru.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y Chweched Senedd, mae'n amser da i edrych ar sut rydym ni'n gosod ein cyllideb, yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau a'r nodau a'r amcanion rydym ni'n ceisio eu hariannu.

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n unol â blaenraglen waith tair blynedd, gan geisio deall gofynion y gyllideb ymlaen llaw er mwyn rhoi trosolwg llawn a digon o rybudd ymlaen llaw i ni o unrhyw eitemau gwariant mawr.

Rydym ni'n gwybod y bydd y byd ar ôl COVID-19 yn wahanol iawn i'r byd rydym ni'n gyfarwydd ag ef. Bydd y Comisiwn yn parhau i fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon y gall pobl Cymru fod yn hyderus ohono.

# 2. Y Gyllideb

Fel cyllideb gyntaf y Chweched Senedd, rhaid i'r gyllideb ar gyfer 2021-22 sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn cael eu cynnal i'r safon a ddisgwylir gan Aelodau wrth i ni drosglwyddo i garfan newydd o Aelodau a pharatoi i fwrw ymlaen â meysydd gwaith blaenoriaeth y Comisiynwyr newydd.

Daw'r gyllideb ar gyfer 2021-22 i gyfanswm o £62.914 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:

- gwariant sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys cronfa brosiectau (y gyllideb weithredol);
- dibrisiant;
- y gyllideb ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyflog a Lwfansau Aelodau;
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Trysorlys EM; a
- chyllideb a glustnodwyd ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad.

2021-22 fydd blwyddyn gyntaf y Senedd newydd, felly darparwyd ffigurau ar gyfer y flwyddyn honno a'r ddwy flynedd ganlynol yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio cyfredol. Mae'n bosibl y bydd y Comisiynwyr newydd am ddilyn cyfeiriad newydd o ran strategaeth y gyllideb, felly gall y rhifau hyn newid yng nghylch nesaf y gyllideb.

Mae'r gyllideb weithredol yn dangos cynnydd o 1 y cant o'i chymharu â 2020-21. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb weithredol ar gyfer y Senedd yn ymwneud â chostau staff. Mae'r dyfarniad cyflog sydd wedi'i gysylltu â'r mynegai, y cytunwyd arno ag Ochr yr Undebau Llafur, wedi arwain at ddyfarniad cyflog o 2.6 y cant i staff o fis Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r costau wedi cynnyddu hefyd mewn rhannau o'r gyllideb nad ydynt yn ymwneud â staff, fel costau llety a chostau TGCh.

Mae'r Comisiwn wedi gallu darparu ar gyfer y cynnydd hwn o 2.6 y cant yn rhannol, o fewn cynnydd cyffredinol o 1 y cant, drwy nodi lle y gallai ffyrdd newydd neu wahanol o weithio sicrhau manteision ac arbedion.

Yn y byd ar ôl COVID-19, mae'n rhesymol disgwyl y gallem weld newidiadau i arferion gwaith a allai effeithio yn gadarnhaol a hefyd yn negyddol ar gyllidebau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae cyfnod y cyfyngiadau symud wedi dangos ei bod yn ymarferol ac yn fwy dymunol, mewn rhai achosion, i ni gynnal cyfarfodydd yn rhithwir. Mae hyn yn arwain at fanteision fel arbed amser a chostau teithio, gan ryddhau amser i'w ddefnyddio'n fwy adeiladol. Fodd bynnag, mae hefyd wedi arwain at gostau ychwanegol, fel trwyddedau meddalwedd a chaledwedd TGCh, yn ogystal â rhoi pwysau ar adnoddau staffio ac offer ar gyfer gweithio gartref.

Mae'r gwytnwch a welwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi dangos ein bod yn gallu parhau i ddarparu cymorth o'r radd flaenaf i fusnes y Senedd yn ogystal â rhoi cipolwg ar fanteision a chyfleoedd posibl ar gyfer ein model o weithio yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn creu posibiliadau o ran y ffordd y defnyddir ein swyddfeydd ynghyd â helpu i leihau ôl troed carbon yr ystâd.

Rydym wedi cynnal ymarfer cyllidebu cwbl gynhwysfawr i ddadansoddi'n fanwl y gyllideb nad yw'n gysylltiedig â staffio ac effaith COVID-19, yn ogystal â'r gostyngiad disgwyliedig o ran gweithgarwch yn ystod cyfnod yr etholiad. Gan gofio'r angen am ddarbodusrwydd, mae'r Comisiwn wedi gostwng y gronfa prosiectau o'r £1.055 miliwn a ragwelwyd i £0.450 miliwn. Bydd y gostyngiad hwn yn cyfyngu ar y buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer TGCh a'r ystâd, ond caiff yr effeithiau eu rheoli drwy osod blaenoriaethau cadarn.

## Cynllunio'r gweithlu

Yn ystod y Pumed Senedd, ac yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gapasiti a Chynllun Ymadael Gwirfoddol, rhoddwyd cap ar nifer staff y sefydliad yn 2020-21. Mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau bod y disgyblaethau priodol ar waith i gyd-fynd ag adnoddau a gofynion.

Yn ystod y Chweched Senedd byddwn ni'n canolbwyntio'n fanwl ar y gyllideb staffio gyffredinol a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ("FTE") a gyflogir gan y Comisiwn. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos hyblygrwydd a gwytnwch ein staff, ond mae'n glir hefyd fod angen i ni gadw o leiaf y lefel bresennol o staff er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa ddigon cadarn i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd y strategaeth bobl ar gyfer y Comisiwn yn 2019 ac mae'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r Comisiwn o ran pobl. Fel sefydliad, rydym am ddenu, datblygu a chadw gweithlu amrywiol, talentog mewn gweithle lle gall ein gweithwyr ddatblygu a llwyddo.

## Cyllideb yr etholiad

Rydym wedi neilltuo cyllideb o £2.6 miliwn i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad er mwyn gwarchod y gyllideb weithredol a thrwy hynny ddiogelu cronfeydd i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r Aelodau fel arfer.

Defnyddir y gyllideb hon yn bennaf ar gyfer talu costau terfynu swyddi'r Aelodau hynny na chânt eu hail-ethol (drwy grant ailsefydlu) a chostau'r taliadau diswyddo ar gyfer eu staff cymorth.

Defnyddir y gyllideb hon hefyd i ddarparu offer a chefnogaeth TGCh i Aelodau newydd o'r Senedd, i dalu costau'r agoriad swyddogol ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ran llety. Bydd costau ymgysylltu hefyd yn gysylltiedig â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, gan gynnwys darpariaeth ychwanegol nawr bod yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i ostwng i 16 oed. Bydd y rhan fwyaf o'r gwariant hwn yn rhan o gyllideb 2020-21, ond oherwydd amseriad yr etholiad, disgwylir y bydd cyfran fach o wariant i godi ymwybyddiaeth o'r hawl i bleidleisio yn 16 oed yn rhan o gyllideb 2021-22.

Drwy gynnwys hwn fel cyllideb ar wahân, mae'r costau penodol sy'n ymwneud â'r etholiad a gaiff eu talu o'r gyllideb yn dryloyw ac yn hawdd eu nodi (Tabl 11). Bydd unrhyw gronfeydd dros ben ar ôl talu'r holl gostau yn cael eu talu'n ôl i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau

Yn syth ar ôl yr etholiad bydd cyfnod dwys o weithgareddau cynefino i groesawu Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i ddechrau'r tymor seneddol newydd. Bydd hyn yn galluogi Aelodau newydd a'u staff i ymgyfarwyddo â'u rolau a'u cyfrifoldebau newydd cyn gynted â phosibl. Mae hefyd yn bwysig er mwyn diweddaru a mireinio gwybodaeth yr Aelodau sy'n dychwelyd a'u staff, ac er mwyn eu cefnogi yn enwedig os ydynt yn camu i rolau gwahanol.

Mae'r hyfforddiant a ddarperir gennym yn cwmpasu nifer o feysydd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi Aelodau yn y rolau amrywiol y mae angen iddynt eu cyflawni, o fod yn seneddwyr i fod yn rheolwyr swyddfa etholaethol. Bydd yr hyfforddiant cychwynnol yn canolbwyntio ar roi cyflwyniad i'r Senedd a sut y mae'n gweithio, gan gynnwys amlinelliad o rôl y Comisiwn a'r gwahanol wasanaethau a ddarperir ganddo. Bydd yr Aelodau'n cael hyfforddiant ar eu cyfrifoldebau o dan y cod

ymddygiad, ac yn dysgu am brosesau ymarferol fel sut i gymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn, a sut i gyflwyno cwestiynau.

Wrth i'r Aelodau ddod i arfer â'r tymor newydd, darperir hyfforddiant pellach i drafod y pynciau hyn yn fanylach, a hefyd i drafod sgiliau ar gyfer rolau penodol, fel Cadeiryddion Pwyllgorau neu Gomisiynwyr. Wrth i Bwyllgorau ffurfio, darperir hyfforddiant penodol i ddatblygu sgiliau craffu a helpu i sefydlu rhaglenni gwaith effeithiol. Mae pob Aelod hefyd yn gyflogwyr sy'n rhedeg ei swyddfa etholaethol neu ranbarthol ei hun, felly rydym hefyd yn cynnig cymorth o ran arwain, rheoli a gweinyddu swyddfeydd i'r Aelodau a'u timau i'w helpu i sefydlu prosesau effeithlon a rheoli eu gwaith achos yn effeithiol.

## Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi

Y bwriad oedd i'r safon gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi ("y Safon Adrodd"), ddod i rym o flwyddyn ariannol 2020-21. Yna gwnaed penderfyniad gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio gweithredu'r Safon Adrodd tan 1 Ebrill 2021, a hynny yn sgil COVID-19.

Yn unol â'r Safon Adrodd, rhaid rhoi cyfrif am bob prydles mewn modd cyson. Yn flaenorol, nid oedd prydlesi a ddosbarthwyd yn 'brydlesi gweithredol' yn cael eu cydnabod ac roeddent yn cael eu hadrodd 'oddi ar y fantolen'. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar sut yr ymdrinnir â phrydles adeilad Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd, sy'n gartref i'r rhan fwyaf o staff y Comisiwn. Ar hyn o bryd nid yw Tŷ Hywel yn cael ei ddosbarthu fel ased ac nid yw'n cael ei ddibrisio. O 1 Ebrill 2021, pan fydd yn cael ei gydnabod fel ased 'hawl defnyddio', bydd yn cael ei ddibrisio dros y cyfnod y rhagwelir y bydd y brydles yn para yn y dyfodol.

Bydd y newid yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a chyllid llog yng nghyllideb y Comisiwn. Caiff y taliadau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad yng nghost rhentu'r swyddfa a ddangosir yn y gyllideb.

Bydd cyllideb gyffredinol y Comisiwn yn cynyddu. Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r swm o arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y gost rhentu arian parod a ysgwyddir yn aros yr un peth, ond bydd yn cael ei ddangos mewn ffordd wahanol yn y cyfrifon.

Ni ddangosir effaith y Safon Adrodd yn Atodiad 1 na 2. Bydd cyllideb y Comisiwn yn cael ei haddasu, yn amodol ar unrhyw oedi pellach gan Drysorlys Ei Mawrhydi

a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol, i adlewyrchu'r Safon Adrodd yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2021-22.

## Yr UE – y cyfnod pontio

Pan adawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020, fe ddechreuodd cyfnod pontio a fydd yn para tan 31 Rhagfyr 2020. Mae'r Senedd yn wynebu pwysau gwaith sylweddol yn ystod y cyfnod pontio hwn. Fel isafswm, bydd angen i'r Aelodau graffu ar yr holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â diwedd y cyfnod pontio a'i phasio. Bydd angen i'r Senedd hefyd ystyried yr holl Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â deddfwriaeth Brexit gan gynnwys Bil y Farchnad Fewnol, sy'n debygol o beri newid sylweddol i'r ffordd y mae'r sefydliadau datganoledig yn gweithredu. Mae'r Senedd wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i graffu ar yr holl fframweithiau cyffredin amlinellol. Mae'n bwysig nodi bod holl ddeddfwrfeydd y DU wedi dod i gytundebau tebyg â'u llywodraethau priodol. Byddai risg i enw da'r Senedd o fethu â chwblhau'r gwaith hwn tra bo deddfwrfeydd eraill yn y DU yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae'r dyfodol yn dal i fod yn ansicr o ran perthnasoedd masnachu ac rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer pob senario, gan sicrhau bod gennym y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi Aelodau wrth iddynt fonitro'r trafodaethau, asesu goblygiadau bargeinion masnach a chraffu ar gyfraith yr UE a fframweithiau polisi cyffredin a chytundebau masnach ledled y DU.

Mae'r Comisiwn wedi ystyried goblygiadau nifer o senarios posibl yn sgil Brexit o ran y gyllideb a byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa wrth i'r cyfnod pontio ddod i ben.

## Gwaith ymgysylltu

Un o brif themâu ein gwaith ymgysylltu yw rhoi pobl wrth galon eu senedd, estyn allan i gynnwys pobl ym musnes y Senedd, egluro'r hyn rydym ni'n ei wneud, gwrando ar eu straeon, a defnyddio eu profiadau er mwyn esbonio sut y mae'r Senedd yn effeithio ar fywyd yng Nghymru.

Yn 2019, penododd y Cynulliad, fel yr oedd ar y pryd, ei Gyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu cyntaf; ers hynny, mae'r Senedd wedi canolbwyntio fwyfwy ar ddefnyddio llwyfannau digidol i wneud ein gwaith yn fwy hygyrch i fwy o bobl.. Datblygodd y duedd hon ymhellach yn ystod y cyfyngiadau symud yn 2020, gan mai dim ond drwy ddulliau rhithwir y gallai pobl gael mynediad i'r Senedd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd o ddod â’r Senedd i’r bobl, ac o gynnwys pobl a'r materion sy’n bwysig iddynt yng ngwaith y Senedd.

Un o brif elfennau ein gwaith ymgysylltu yw sicrhau bod y negeseuon rydym ni’n eu rhoi allan yn creu’r ymateb a fwriadwyd. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi dyrannu mwy o arian yn y gyllideb i’w fuddsoddi mewn dadansoddiad rheolaidd o'n gwaith a'r ymateb y mae'n ei gael. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach i ni o'r hyn sy'n gweithio, a’r mannau gorau i dargedu ein hadnoddau.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu rhaglen i ymgysylltu a chyfnewid gwybodaeth â'r gymuned academaidd yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan ein Haelodau fynediad i’r cyngor a'r arbenigedd gorau posibl mewn ffordd hynod gost-effeithiol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith academyddion o sut i ymgysylltu â gwaith y Senedd. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cynllun cymrodoriaeth lwyddiannus, cytundeb caffael ar gyfer gwaith ymchwil ar bynciau sy'n gysylltiedig â Brexit, a chofrestr o arbenigwyr COVID-19.

Bydd gwefan newydd y Comisiwn yn hybu gwell dealltwriaeth o’r Senedd a'i gwaith. Bydd y wefan newydd hefyd yn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd a bydd yn cefnogi ein strategaeth ddata agored. Drwy ei gwneud hi'n haws i bobl rannu a chyfrannu at waith y Senedd, rydym ni'n gobeithio ymgysylltu'n amlach ac yn fwy ystyrlon â phobl Cymru.

## Meddalwedd ar gyfer deddfwriaeth

Byddwn yn ail flwyddyn ein prosiect dwy flynedd i gaffael system newydd yn lle’r feddalwedd ddeddfwriaethol bresennol sydd wedi dod i ddiwedd ei chylch bywyd datblygu. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gaffael y system newydd a fydd yn system ar y cyd rhyngom ni a’r Llywodraeth i gefnogi'r broses ddeddfwriaethol a galluogi craffu effeithiol.

Roedd costau terfynol y contract yn is na'r disgwyl ac mae'r swm y gofynnir amdano o’r gyllideb yng Nghronfa Brosiectau 2021-22 wedi'i ostwng o £600,000 i £240,000.

## Gwariant ar brosiectau a gynlluniwyd

Bydd y Pumed Senedd yn dirwyn i ben a’r Chweched Senedd yn cael ei sefydlu ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Felly, rydym wedi ceisio cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn y gyllideb i fodloni gofynion y Comisiynwyr a'r Pwyllgorau newydd,

heb anghofio ein hymrwymiadau presennol a pharhaus, fel cynnal yr ystâd a buddsoddi yn ein gwasanaethau TGCh. Mae'r arian a fuddsoddwyd eisoes mewn TGCh wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod pandemig y coronafeirws gan ganiatáu i'n gwaith barhau heb fawr ddim problemau, a'n Senedd ni oedd y cyntaf i gynnal Cyfarfod Llawn rhithwir gyda chyfieithu ar y pryd. Denodd y cyflawniad hwn sylw ar lwyfan byd-eang a chryn ddiddordeb gan seneddau eraill a oedd am drafod sut y gwnaethom gyflawni hyn.

Dros y tair i bum mlynedd nesaf, byddwn ni'n adnewyddu rhai contractau sylweddol, gan gynnwys cyflwyno systemau Adnoddau Dynol / Cyflogres a Chyllid newydd. Bydd ein Swyddfa Rhaglenni a Newid, sydd newydd ei chreu, yn ganolbwynt ar gyfer cyflwyno newid sefydliadol.

Mae gan y tîm TGCh gynllun gwaith tair blynedd sy'n ein galluogi i gynnal systemau a nodi lle bydd angen buddsoddiad ar raddfa fawr a chynllunio'n unol â hynny. Erbyn hyn, gliniaduron yw'r offer a ffafrir gan staff ac Aelodau fel ei gilydd i gefnogi parhad busnes. Bydd rhaglen adnewyddu dreigl yn dechrau yn 2022-23 ac mae rhywfaint o arian wedi'i glustnodi yn 2021-22 i adnewyddu unrhyw offer sy'n methu cyn y disgwyl. Byddwn ni'n adnewyddu contractau sylweddol eraill dros yr ychydig flynyddoedd nesaf hefyd, gan gynnwys y contract darlledu a'r contract teleffoni.

## Diwygio'r Senedd

Cyhoeddodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ei ganfyddiadau ar 10 Medi 2020. Byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau yn arwain at oblygiadau cost. Bydd unrhyw oblygiadau i'r gyllideb yn cael sylw os a phryd y caiff penderfyniadau eu gwneud i gynyddu nifer yr Aelodau neu fynd i'r afael ag agweddau eraill ar Ddiwygio'r Senedd yn ystod y Chweched Senedd.

## Y Comisiynydd Safonau

Crëwyd swyddfa'r Comisiynydd Safonau annibynnol gan Fesur (Comisiynydd Safonau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Mae'r Mesur yn caniatáu i'r Comisiynydd Safonau sefydlu ei swyddfa ei hun, gyda Chomisiwn y Senedd yn talu'r costau. Hyd yn hyn, nid oes yr un Comisiynydd Safonau wedi penodi staff na chaffael nwyddau yn uniongyrchol, gan ddewis yn hytrach fabwysiadu model lle darperir yr holl adnoddau drwy strwythurau ariannol ac adnoddau presennol y Comisiwn. Er tryloywder, ystyrir bod 'swyddfa'r Comisiynydd' yn endid ar wahân at ddibenion cyllidebu.

Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff Comisiwn y Senedd ar secondiad yn swyddfa'r Comisiynydd Safonau. Maent yn parhau i fod yn gyflogeion Comisiwn y Senedd, ond maent yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Comisiynydd Safonau.

Rhagwelir y bydd Comisiynydd Safonau newydd yn cael ei benodi yn ystod 2020-21. Mater i'r Comisiynydd newydd fydd ystyried trefniadau staffio yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â Chlerc y Senedd fel prif swyddog cyfrifyddu'r Comisiwn.

## Strategaeth Ystadau

Bydd y cyfnod hwn o weithio o bell a brwdfrydedd llawer o staff i barhau i weithio gartref, yn barhaol, am rywfaint o'r wythnos yn golygu y gallwn ni ailasesu faint o le fydd ei angen arnom yn y dyfodol. Pe bai 20 y cant o'r rheini a oedd yn bresennol bob dydd yn Nhŷ Hywel cyn y cyfyngiadau symud yn parhau i weithio gartref, yna byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol o ran capasiti yn y dyfodol. Byddai hefyd yn gyfle i ailystyried sut rydym ni'n defnyddio Tŷ Hywel ac i ddarparu cyfleusterau newydd o bosibl.

Rydym yn parhau i ystyried dyfodol hirdymor Tŷ Hywel fel cartref y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff cymorth. Disgwylir i'r brydles bresennol gael ei hadnewyddu ymhen ychydig dros 10 mlynedd. Pe bai'r brydles yn cael ei hymestyn gan 30 mlynedd, byddai Tŷ Hywel yn 70 oed ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae'r opsiynau a gaiff eu hystyried dros y 24 mis nesaf yn cynnwys: adnewyddu'r brydles, trefniant i brynu'r brydles, ac a yw strategaeth adeiladau Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn cynnwys datblygu'r plot adeiladu gwag wrth ymyl y Senedd.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn cynnwys darpariaeth gwerth £50,000 yn y gronfa brosiectau i gynnal adolygiad dichonoldeb ar gyfer adnewyddu'r ffenestri yn Nhŷ Hywel. Mae'r ffenestri yn Nhŷ Hywel yn 29 oed. Disgwylir i ffenestri o'r fath barhau i weithio am 25-35 mlynedd. Fodd bynnag, mae sawl arolwg annibynnol a gynhaliwyd ers 2015 yn awgrymu na ddisgwylir i'r ffenestri bara cyhyd oherwydd lleoliad yr adeilad ar lan y môr.

Mae'r arolygon wedi dangos bod y ffenestri mewn cyflwr gwael a bod eu perfformiad thermol yn wael hefyd. Mae diffygion ar nifer gynyddol o ffenestri ac nid oes modd cael rhannau newydd ar eu cyfer i'w hatgyweirio mwyach.
Fel rhan o gytundeb prydles atgyweirio ac yswirio llawn ar gyfer Tŷ Hywel, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal a chadw'r adeilad mewn cyflwr da, gan gynnwys adnewyddu unrhyw eitemau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes megis boeleri,

drysau a ffenestri. Mae'r lefel gynyddol o ddiffygion a methiannau ynghyd â pherfformiad sy'n gwaethygu wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu a blaenoriaethu rhaglen fesul cam ar gyfer gosod ffenestri newydd. Bydd angen cryn fuddsoddiad ariannol i wneud hyn a bydd y gwaith yn peri nifer o heriau logistaidd sylweddol.

Cynhaliwyd yr astudiaeth ddichonoldeb yn ystod haf 2020 a bydd y Comisiwn yn ystyried y canlyniadau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd y Comisiynwyr yn ystyried yr opsiynau a'r costau ymhellach ac yn edrych ar sut y gallai'r prosiect hwn naill ai gael ei gyflwyno'n raddol, neu ei ariannu fel eitem eithriadol untro yng Nghyllideb y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd. Nid oes unrhyw gostau ar gyfer adnewyddu'r ffenestri wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

# 3. Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Fel rhan o'i rôl, mae ARAC yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio.

Mae ARAC yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn cymryd diddordeb brwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae’r timau archwilio allanol ac archwilio mewnol yn ffynonellau pwysig o sicrwydd i ARAC a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd) yw archwilydd allanol y Comisiwn ac fe gaiff gymorth yn ei waith gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20, cyhoeddodd yr Archwilydd farn ddiamod ar y datganiadau ariannol ac ni wnaed unrhyw argymhellion ac ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn yr Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol nac yn y Llythyr Rheoli a gwblhawyd gan dîm ymgysylltu Archwilio Cymru.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb i sicrhau bod Cronfa Brosiectau’r Comisiwn yn cael ei defnyddio’n effeithiol ac effeithlon. Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiad yn y ffordd orau. Mae’r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae’n darparu gwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

Corff sy’n cynghori’r Bwrdd Gweithredol yw’r Tîm Arwain ac mae’n sicrhau bod cynlluniau gweithredol yn cael eu cyflwyno’n effeithiol. Mae’n gweithredu ar y cyd er budd corfforaethol y Comisiwn. Mae'r tîm Gwasanaethau Ariannol yn gweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni nifer o dargedau ac yn adrodd ar ei berfformiad fel rhan o Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Comisiwn. Mae'r targedau hyn, gan gynnwys targedau ychwanegol y gwasanaethau, yn ffordd o ganolbwyntio a

sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod ymgysylltiad yn cael ei gynnal rhwng y tîm cyllid canolog a'r sefydliad ehangach.

# 4. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff, a'r system o gymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu yn ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys); a
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Ar ddechrau'r Pumed Senedd, y cyflog sylfaenol penodedig ar gyfer Aelodau oedd £64,000, a fyddai'n cynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Cynyddwyd cyflogau Aelodau 2.3 y cant yn 2018-19 ac 1.2 y cant yn 2019-20. Ni chafodd cyflog Aelodau ei godi yn unol ag enillion cyfartalog yn 2020-21 (4.4 y cant) ar ôl i'r Bwrdd Taliadau benderfynu, yn sgil pandemig COVID-19, peidio â chymhwyso'r dyfarniad mynegeio blynyddol i gyflogau Aelodau a Deiliaid Swyddi eleni.

Ar gyfer y Chweched Senedd, cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ym mis Mai 2020. Bydd cyflog yr Aelodau yn aros ar yr un lefel, gan barhau i gynyddu'n flynyddol yn unol ag ASHE. Mae cynnydd o 3 y cant i gyflogau wedi'i gynnwys yn y gyllideb hon ar gyfer blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd fel amcangyfrif ar gyfer ASHE. Rhagdybiwyd cynnydd o 2 y cant ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Telir cyflogau ychwanegol i Aelodau sy'n ddeiliaid swyddi a'r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel Gweinidogion, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau.

Caiff Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Y gyllideb ar gyfer costau staff cymorth ar ddechrau'r Chweched Senedd yw £8.942 miliwn. Nodwyd cynnydd o 2 y cant ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

Mae trosiant staff (h.y. y gyllideb a gaiff ei rhyddhau oherwydd swyddi gwag) wedi'i gynnwys ar lefel o £1 miliwn er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd Aelodau'n cymryd peth amser yn dilyn yr etholiad i recriwtio staff i'w swyddfeydd. Tybiwyd y bydd hyn yn lleihau yn y blynyddoedd dilynol ond bydd y patrymau gwariant yn cael eu hadolygu cyn pennu'r gyllideb, er mwyn addasu yn ôl yr angen.

Adolygodd y Bwrdd Taliadau y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ac mae wedi cynnwys darpariaethau newydd i roi cymorth ychwanegol i Aelodau. Nod y darpariaethau hyn yw sicrhau nad yw'r cymorth a'r tâl a gynigir i Aelodau yn atal pobl rhag sefyll i gael eu hethol i'r Senedd.

Mae'r Bwrdd yn adolygu elfennau eraill o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Caiff y cyllidebau Costau Swyddfa a Gwariant Llety Preswyl eu hadolygu'n flynyddol a'u haddasu yn ôl yr angen. Er mwyn darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, tybiwyd codiad cyflog yn unol â chwyddiant yn unig.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2021-22 a'r ddwy flynedd ddilynol yn Nhabl 9.

# 5. Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Senedd yn 2021-22, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Cyllideb 2021-22 ar gyfer y Senedd o gymharu â'r gofynion***

| **Gofynion y Senedd** | **2021-22<br>£000** |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br><br>Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd | £62,914<br>Tabl 2 |
| Adnoddau cronnus ar gyfer eu cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd | £220<br>Tabl 8 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | £59,163<br>Tabl 3 |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

***Tabl 2: Trosolwg o'r Gyllideb***

| **Pennawd y Gyllideb** | **2020-21* £000** | **2021-22 £000** | **2022-23 £000** | **2023-24 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4) | £25,358 | £26,325 | £27,115 | £27,928 |
| Adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5) | £7,727 | £7,798 | £7,875 | £7,951 |
| Costau TGCh (Tabl 6) | £2,310 | £2,380 | £2,414 | £2,431 |
| Costau eraill (Tabl 7) | £2,363 | £2,202 | £2,247 | £2,262 |
| cyfanswm gwariant refeniw | £37,758 | £38,705 | £39,651 | £40,572 |
| Cyfanswm Incwm (Tabl 8) | (£220) | (£220) | (£220) | (£220) |
| Gwariant cyfalaf (Tabl 10) | £500 | £500 | £500 | £500 |
| Cronfa brosiectau (Tabl 10) | £1,015 | £460 | £700 | £1,000 |
| Cyfanswm adnoddau gweithredol (ac eithrio) | £39,053 | £39,445 | £40,631 | £41,852 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | £2,250 | £2,250 | £2,250 | £2,250 |
| Cyfanswm Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | £41,303 | £41,695 | £42,881 | £44,102 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) | £16,172 | £16,819 | £16,805 | £16,850 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad (Tabl 11) | £500 | £2,600 | £0 | £0 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | £1,600 | £1,800 | £1,800 | £1,800 |
| Cyfanswm Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau | £18,272 | £21,219 | £18,605 | £18,650 |
| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | £59,575 | £62,914 | £61,486 | £62,752 |

*Mae ffigurau 2020-21 yn cynnwys y gyllideb atodol gyntaf

***Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| **Gofyniad arian parod net** | **2020-21*** | **2021-22** |
|---|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £16,172 | £16,819 |
| Gwariant sy'n ymwneud â'r etholiad | £500 | £2,600 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £40,803 | £41,144 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 | £500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £1,600 | £1,800 |
| Is-gyfanswm | **£59,575** | **£62,863** |
| Addasiadau | | |
| Dibrisiant | (£2,250) | (£2,250) |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (£1,600) | (£1,800) |
| Newidiadau o ran dyledwyr a chredydwyr | £350 | £350 |
| Is-gyfanswm | **(£3,500)** | **(£3,700)** |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru | **£56,075** | **£59,163** |

*Mae ffigurau 2020-21 yn cynnwys y gyllideb atodol gyntaf

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

***Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff y Comisiwn | £26,222 | £27,196 | £27,983 | £28,794 |
| Costau staff y Comisiynydd Safonau | £136 | £129 | £132 | £134 |
| Swyddi gwag / trosiant staff | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) |
| Cyfanswm | £25,358 | £26,325 | £27,115 | £27,928 |

***Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Adeiladau a Chyfleusterau***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent ac ardrethi yn cynnwys parcio ceir | £4,255 | £4,307 | £4,336 | £4,365 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £980 | £980 | £980 | £980 |
| Diogelwch | £793 | £773 | £788 | £803 |
| Cyfleustodau | £570 | £582 | £594 | £607 |
| Glanhau | £533 | £537 | £548 | £560 |
| Arlwyo | £391 | £399 | £408 | £416 |
| Rhentu llungopiwyr | £145 | £160 | £160 | £160 |
| Dodrefn a gosodiadau | £60 | £60 | £60 | £60 |
| Cyfanswm | £7,727 | £7,798 | £7,875 | £7,951 |

***Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TGCh | £519 | £514 | £516 | £518 |
| Darlledu | £643 | £683 | £714 | £728 |
| Trwyddedu a chynnal a chadw | £1,033 | £1,083 | £1,084 | £1,085 |
| Refeniw a defnyddiau traul | £115 | £100 | £100 | £100 |
| Cyfanswm | £2,310 | £2,380 | £2,414 | £2,431 |

***Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £333 | £289 | £284 | £299 |
| Hyfforddi a datblygu | £355 | £339 | £354 | £354 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £300 | £270 | £300 | £300 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio | £242 | £229 | £229 | £229 |
| Costau Adnoddau Dynol eraill | £166 | £166 | £166 | £166 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £147 | £144 | £144 | £144 |
| Teithio a Chynhaliaeth staff | £144 | £132 | £132 | £132 |
| Cyhoeddiadau | £127 | £127 | £127 | £127 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £115 | £103 | £107 | £107 |
| Archwilio | £75 | £75 | £75 | £75 |
| Costau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Taliadau | £62 | £62 | £62 | £62 |
| Cyngor arbenigol | £51 | £45 | £46 | £46 |
| Ymgysylltu academaidd | £40 | £40 | £40 | £40 |
| Ymgynghori | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Lletygarwch | £48 | £29 | £29 | £29 |
| Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £21 | £31 | £31 | £31 |
| Gwisgoedd a dillad | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Fetio | £17 | £10 | £10 | £10 |
| Eitemau eraill <£20k | £73 | £66 | £66 | £66 |
| Cyfanswm | £2,363 | £2,202 | £2,247 | £2,262 |

***Tabl 8: Dadansoddiad o incwm***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiannau – siop y Senedd | £20 | £20 | £20 | £20 |
| Adeiladau – incwm rhentu | £58 | £58 | £58 | £58 |
| Incwm parcio ceir ac incwm arall | £142 | £142 | £142 | £142 |
| Cyfanswm | £220 | £220 | £220 | £220 |

***Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig***

| | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau o'r Senedd a chostau cysylltiedig | £6,544 | £6,731 | £6,933 | £6,933 |
| Cyflogau staff cymorth yr Aelodau a chostau parhaol | £8,797 | £8,942 | £8,180 | £8,180 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £1,831 | £2,146 | £2,192 | £2,237 |
| Swyddi Gwag / trosiant staff | (£1,000) | (£1,000) | (£500) | (£500) |
| Cyfanswm | £16,172 | £16,819 | £16,805 | £16,850 |

***Tabl 10: Prosiectau blaenoriaeth ar gyfer 2021-22***

| Cronfa Brosiectau a gwariant cyfalaf 2021-22 | Swm £'000 |
|---|---|
| Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth | £200 |
| Meddalwedd Legislative Workbench | £240 |
| Gwariant ar brosiectau Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £245 |
| Gwariant ar brosiect TGCh | £275 |
| Cyfanswm | £960 |

***Tabl 11: Gwariant yn ymwneud â'r etholiad***

| Natur y gwariant | Swm 2016-17 £'000 | Swm 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau ymaddasu ar gyfer Aelodau | £900 | £1,000 |
| Taliadau dileu swyddi ar gyfer staff cymorth yr Aelodau | £450 | £550 |
| Cyflog a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfnod dirwyn i ben a'r agoriad swyddogol. | £650 | £290 |
| Gwasanaethau ar gyfer Aelodau sydd newydd eu hethol (TGCh, llety ac ati) | £500 | £760 |
| Cyfanswm | £2,500 | £2,600 |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon